

## EVANS, EVAN ('Ieuan Fardd,' neu 'Ieuan Brydydd Hir'; 1731 - 1788), ysgolhaig, bardd, ac offeiriad


**Enw:** Evan Evans  
**Ffugenw:** Ieuan Fardd, Ieuan Brydydd Hir  
**Dyddiad geni:** 1731  
**Dyddiad marw:** 1788  
**Rhiant:** Catherine Evans  
**Rhiant:** Jenkin Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ysgolhaig, bardd, ac offeiriad  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** Aneirin Lewis

Ganwyd 20 Mai 1731, yn ffermdy'r Gynhawdref, plwyf Lledrod, Ceredigion, mab Jenkin a Catherine Evans.

Addysgwyd ef gan [Edward Richard](#) yn ysgol Ystrad Meurig, ond ni ellir rhoddi dyddiadau pendant i ddangos yn ystod pa flynyddoedd y bu yno. Ar 8 Rhagfyr 1750 ymaelododd yng Ngholeg Merton, Rhydychen; niwlog hefyd yw'r dystiolaeth am ei arhosiad yno - yr oedd yn bresennol yn ystod 1751, ac eto yn 1753, ond ymadawodd heb gymryd gradd. Cyn mynd i Rydychen, daeth i adnabod [Lewis Morris](#), a roddodd gyfeiriad i'w fywyd trwy ei gyfarwyddo yng nghelfyddyd cerdd dafod, ennyn ei ddiddordeb mewn dysg Gymraeg, a dod ag ef i gysylltiad â'r rhai eraill a hyrwyddai adfywiad llenyddol a hynafiaethol Cymreig y 18fed ganrif, sef [Richard](#) a [William Morris](#), [William Wynn](#), Llangynhafal, a [Goronwy Owen](#).

Urddwyd ef yn ddiakon yn Llanelwy 4 Awst 1754, ac yn offeiriad 3 Awst 1755, a thrwyddedwyd ef i wasnaethu fel curad ym Manafon, Sir Drefaldwyn. Ymadawodd oddi yno rywbryd yn ystod hanner cyntaf 1756, a threuliodd hanner olaf y flwyddyn yn gurad yn Lyminge, Kent. Yn nechrau 1757 bu am dri mis yn Rhydychen yn copio barddoniaeth Gymraeg allan o ' Lyfr Coch Hergest,' ac am ddeufis yn gaplan yn y llynges. Dychwelodd wedyn i Gymru, a threuliodd 10 mis fel cynorthwyr i Samuel Griffiths, ficer Llanafan Fawr, sir Frycheiniog. O Hydref 1758 hyd Hydref 1766, trigai yng ngogledd Cymru, gan wasnaethu fel curad yn Llanllechid am flwyddyn, yn Nhrefriw a Llanrhychwyn am ddwy flynedd, ac o 1761 hyd 1766 yn Llanfair Talhaearn.

Yn ystod y blynyddoedd hyn bu wrthi'n ddyfal yn casglu a chopio llawysgrifau 'n ymwneuthur â hanes a llenyddiaeth Cymru, a dod i gysylltiad â rhai eraill a ymddiddorai yn yr un gwaith, gw r megis [David Jones](#) o Drefriw; [John Thomas](#), awdur *A History of the Island of Anglesey*, 1775; [Rhys Jones](#) o'r Blaenau; Richard Roberts, cyfieithydd *Y Credadyn Bucheddol*, 1768; [Robert Thomas](#), clochydd Llanfair Talhaearn; a [Siôn Powel](#), y bardd o Lansannan.

Daeth hefyd i adnabod hynafiaethwyr o Saeson a ymddiddorai yn hanes a llenyddiaeth Cymru, e.e. [Daines Barrington](#), yr hwn a'i cymhellodd i ddechrau cyfieithu barddoniaeth Gymraeg ac a âi ag enghreifftiau i'w dangos i Thomas Gray a Thomas Percy, a fu'n gohebu ag ef am flynyddoedd. Y Saeson hyn yn bennaf hefyd a symbylodd Ieuan i gyhoeddi'r gwaith a ddug iddo enwogrwydd fel ysgolhaig Gymraeg, sef [Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards](#) , 1764. Yn y gyfrol hon cafwyd ymgais drefnus a hynod lwyddiannus i ddehongli gwaith beirdd cyfnod y Tywysogion ac i roi syniad am hanes barddoniaeth Gymraeg o'r 6ed ganrif hyd y 16eg. Bodlonodd hefyd ryw gymaint ar awch hynafiaethwyr Lloegr am wybodaeth yngl n â llenyddiaeth Gymraeg, a darparu'n ogystal ddeunydd newydd i lenorion y mudiad Celtaidd yn llenyddiaeth Saesneg diwedd y 18fed ganrif.

Ymadawodd â Llanfair Talhaearn yn ystod Hydref 1766, ac o Dachwedd 1766 hyd Fai 1767 bu'n gwasnaethu fel curad yng nghymdogaeth ei gartref, sef yn eglwysi Lledrod, Llanwnnws, a Chapel Ieuan (Ystrad Meurig). Yna, trodd tua Lloegr, a bu'n gurad am fis yn Appledore, Kent, ac o Orffennaf 1767 hyd ddechrau 1768 yn Newick, Sussex. Yn nechrau Ebrill 1768 ymunodd â'r fyddin, ond ymhen pedwar diwrnod, wedi darganfod mai g r eglwysig ydoedd, rhyddhaodd awdurdodau'r fyddin ef gan dystio ei fod yn dangos arwyddion amhwylledd. Wedi bod gartref am dro, aeth yn gurad eto, y tro hwn i Lanfihangel Crucornau ger Abergafenni, ac yno y bu hyd ddechrau 1769. Dychwelodd wedyn i Ogledd Cymru, gan wasnaethu fel curad yn Llanystumdwy (1769-70), Llandecwyn a Lanfihangel y Traethau (1770-1), Llanberis (1771-2), a Thywyn Meirionnydd o ddiwedd 1772 hyd ddechrau 1777. O 1771 hyd 1778 noddwyd ef gan [Syr Watkin Williams Wynn](#), a châi swm o arian yn gyson a phob cyfle i ddefnyddio llyfrgell gyfoethog Wynnstay. Yn 1772 cyhoeddodd *The Love of our Country*, cerdd Saesneg; yn 1773, *Rhybudd Cyfr-drist i'r Diofal a'r Difraw*, llyfryn yn cynnwys anerchiad byr a Phregeth; yn 1776, *Casgliad o Bregethau*, dwy gyfrol sy'n cynnwys 28 o bregethau wedi eu cyfieithu o'r Saesneg. Oherwydd ei gysylltiad â [Syr Watkin](#) a'i agosrwydd at Hengwrt a Pheniarth, copiodd ac astudiodd lawer iawn o lawysgrifau hefyd, ac yr oedd ganddo ddefnyddiau pwysig yn barod i'w cyhoeddi. Eithr ni ddaeth dim o'i fwriadau yn y cyfeiriad hwn, ac ar ôl ei weld yn treulio

dros hanner blwyddyn yng Nghaerfyrddin yn 1777-8 yn derbyn hyfforddiant mewn Hebraeg ac Arabeg gan athrawon y Coleg Presbyteraidd yn hytrach nag ymroi ati i gyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliadau ysgolheigaidd, ffromodd [Syr Watkin](#) wrtho, a gwrthododd ei noddi ymhellach.

Am 10 mlynedd olaf ei oes ni bu llawer o drefn ar ei fywyd; ac eithrio trigo am ysbeidiau yn Aberystwyth a Chaerfyrddin, a chrwydro ar hyd a lled y wlad gan fyw ar garedigrwydd cyfeillion, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser gartref gyda'i fam yn y Gynhawdref. Ceisiodd agor ysgol yn Aberystwyth, ond ni bu'n llwyddiant; a dywedir iddo wasnaethu fel curad ym Masaleg, sir Fynwy, am ychydig amser tua 1780, pryd y cyfansoddodd 'Englynion i Lys Ifor Hael,' ei gyfansoddiad barddonol enwocaf a gorau. Ac ar hyd yr amser apeliai'n gyson am gefnogaeth boneddigion Cymru a chymdeithasau dysgedig y cyfnod i gyhoeddi cynnwys rhai o'r llawysgrifau pwysicaf a gopiodd yn ystod ei fywyd. Eithr ofer fu pob apêl a wnaeth. Gellir dal ei fod ef ei hun i raddau'n gyfrifol na chafodd gefnogaeth, oherwydd ar hyd ei oes dioddefai oddi wrth wendid a oedd yn gyffredin yn y 18fed ganrif, sef ei fod yn rhy hoff o'r ddioid. Parodd hyn iddo golli ymddiriedaeth pobl a allai fod o gynhorthwy iddo, a diau mai'r un gwendid a fu'n rhwystr iddo gael dyrchafiad yn yr Eglwys. Ond yngl n â'i berthynas â'r Eglwys, dylid cofio hefyd nad edrychai awdurdodau Eglwys Loegr yng Nghymru yn ffafriol ar y rheini a ymroddai o ddifrif i hyrwyddo astudiaethau Cymraeg. Dyna gyfnod yr 'Esgyb-Eingl,' sef canrif a hanner pryd na bu'r un esgob yng Nghymru a fedrai'r iaith Gymraeg; a thuedd yr esgobion Seisnig hyn oedd trwyddedu cydwladwyr iddynt i fywiolaethau a oedd yn uniaith Gymraeg. Ffyrnigai leuan at yr anghyfiawnder hwn, ac ysgrifennodd draethawd hir a llym yn ei gondemnio. Ni chyhoeddwyd y traethawd, ond y mae'n sicr i leuan ddiodef oherwydd ei syniadau.

Bu [Paul Panton](#) a [Thomas Pennant](#) yn garedig iawn wrtho yn ei dlodi a'i siom yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd, a threfnasant i gasglu tanysgrifiadau blynyddol yng Ngogledd Cymru tuag at ei gynnal. Yn 1787, gwelodd fod ei iechyd yn gwaethygu ac na allai astudio o ddifrif bellach; gwerthodd ei lawysgrifau i [Paul Panton](#) a throsglwyddwyd hwy i'r Plasgwyn yn sir Fôn yn niwedd Rhagfyr 1787, ac yn ddiweddarach gwnaethpwyd defnydd helaeth ohonynt gan olygyddion y [The Myvyrian Archaeology of Wales](#), 1801-7. Bu leuan farw yn y Gynhawdref 4 Awst 1788.

Y mae'n ddiamau mai leuan Fardd ydoedd ysgolhaig Cymraeg mwyaf ei gyfnod: gwyddai fwy na neb o'i gyfoeswyr am gynnwys y llawysgrifau Cymraeg a geid mewn gwahanol lyfrgelloedd preifat, ac ymgydnabu hefyd â gwaith ac amcanion yr ysgolheigion Cymraeg mawr o gyfnod y Dadeni ymlaen. Sylweddolai mai prif angen ysgolheictod Cymraeg ei ddydd ef oedd argraffu testunau o'r prif lawysgrifau a oedd yn ymwneud â hanes a llenyddiaeth Cymru. Dymunai ef wneuthur hynny, ac yr oedd ganddo'r gallu a gwyddai'n iawn am ddyletswyddau golygydd gwaith o'r fath. Eithr ni chafodd gefnogaeth i gyflawni ei fwriadau. Er hynny, o dan anfanteision mawr cyflawnodd waith disglair a sicrhaodd iddo le diamheuol bwysig yn hanes ysgolheictod Cymraeg.

## Awdur

Aneirin Lewis, (1924 - 1989)

## Ffynonellau

D. Silvan Evans, *Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir)* (Caernarfon 1876)

*Llawysgrifau Panton yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* yn Ll.G.C.

ymchwil bersonol

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Evan Evans](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [57413633](#)

Wikidata: [Q5415381](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

